**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 13-02(p4)**

**Dyddiad:** **10 Gorffennaf 2002**
**Amser:** **2.00 tan 5.30pm**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgor 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**
**Teitl:** **AWDURDOD DATBLYGU CYMRU: Cynllun Corfforaethol Drafft / Adolygiad Diwedd Blwyddyn**

**Diben a Chamau i'w Cymryd**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi i'r Pwyllgor gefndir Cynllun Corfforaethol drafft 2003-2004 hyd 2005-2006 yr Awdurdod Datblygu (gweler Atodiad A) ac Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod ar gyfer 2001-02 (mae copïau caled wedi cael eu dosbarthu. Bydd fersiwn electronig o'r Adroddiad Blynyddol ar gael ar wefan y WDA ar ôl ei gyhoeddi ar 10 Gorffennaf).

2. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cynllun drafft a gwneud sylwadau arno, ac i nodi'r Adroddiad Blynyddol. Neilltuwyd 45 munud ar gyfer yr eitem hon.

3. Bydd swyddogion y WDA yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor i gyflwyno'r papurau ac i ateb cwestiynau. Y swyddogion hynny fydd: -

- Graham Hawker - Prif Weithredwr; a
- Gareth Hall – Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygu Strategol.

**Cefndir**

4. Mae Cynllun Corfforaethol y WDA yn rhan bwysig o'i gylch cynllunio. Mae'r Pwyllgor yn ystyried y Cynllun drafft er mwyn rhoi ystyriaeth iddo yng Nghylch Cynllunio Cyllideb a Strategol y Cynulliad. Dogfen strategol ydyw sy'n ymdrin â'r cyfnod o dair blynedd rhwng 2003-2004 hyd 2005-2006. Mae'n defnyddio'r canllawiau a geir yn llythyr Cylch Gwaith y Cynulliad, a gafodd ei gyhoeddi ar 4 Chwefror 2002 (ceir copi ohono yn Atodiad B).

5. Mae'r Cynllun drafft yn rhoi syniad cyffredinol i ni o weithgareddau arfaethedig yr Awdurdod dros y tair blynedd nesaf. Bydd yn gosod y sylfaen strategol ar gyfer llunio Cynllun Busnes manwl y WDA ar gyfer 2003-2004.

6. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn darparu crynodeb o berfformiad yr Awdurdod o'i gymharu â thargedau strategol yn ystod 2001-02.

**Cydymffurfio**

7. Sefydlwyd y WDA gan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru). Mae pwerau o dan y Ddeddf honno wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad ac wedi'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a'i staff.
8. Mae Datganiad Rheoli'r WDA yn datgan y bydd yr Awdurdod, bob blwyddyn, yn llunio Cynllun Corfforaethol tair blynedd ac Adroddiad Blynyddol (y naill yn adran 3.5 a'r llall yn adran 4.4). Dogfennau'r Awdurdod yw'r rhain, ac felly nid oes yn rhaid i'r Pwyllgor, na'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, eu "cymeradwyo" . Er hynny, bydd y WDA am glywed barn y Pwyllgor. Nid oes unrhyw fater o reoleidd-dra na phriodoldeb.

**Goblygiadau Ariannol**

9. Mae cyllideb atodol Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd ar 13 Mawrth 2002 yn amlinellu dyraniad cyllideb y WDA am y flwyddyn ariannol gyfredol, a’r cyllid arfaethedig ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol ddilynol.
10. Cyhoeddir cyllideb derfynol y Cynulliad ar gyfer 2003-04 hyd 2005-06 ym mis Tachwedd.

*Mae fersiwn Saesneg y papur hwn yn cynnwys atodiadau. Yn anffodus, nid yw'r atodiadau yn ar gael yn Gymraeg.*